

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Ffordd Osgoi Ddwyreiniol
Hwlfordd, Sir Benfro)
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau
Traffig Dros Dro) 2020

The A40 Trunk Road
(Haverfordwest Eastern Bypass,
Pembrokeshire) (Temporary Traffic
Prohibitions & Restrictions) Order
2020

Gwnaed 21 Chwefror 2020

Made 21 February 2020

Yn dod i rym 28 Chwefror 2020

Coming into force 28 February 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Hwlfordd, Sir Benfro) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 28 Chwefror 2020.

1. The title of this Order is the A40 Trunk Road (Haverfordwest Eastern Bypass, Pembrokeshire) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2020 and it comes into force on 28 February 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 28 Chwefror 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 London to Fishguard Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 28 February 2020 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions and Restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

Cymhwysio

7.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

8. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4 a 5 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

21 Chwefror 2020

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

6. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order during such times as the restriction specified in article 5 is in operation.

Application

7.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Suspensions

8. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 4 and 5 are in operation.

Duration of this Order

9. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

21 February 2020

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Scotchwell hyd at ei chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Ffordd Aberteifi, Hwlfordd, Sir Benfro.

SCHEDULE

The length of the trunk road that extends from its junction with the northern side of Scotchwell Roundabout to its junction with the south-eastern side of Cardigan Road Roundabout, Haverfordwest, Pembrokeshire.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40
(FFORDD OSGOI DDWYREINIOL
HWLFFORDD, SIR BENFRO)
(GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU
TRAFFIG DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, yn Hwlffordd, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A40 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno hefyd.

ii. gosod terfyn cyflymder o 40 mya neu 10 mya ar y darn o gefnffordd yr A40 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn pan nad yw'r ffordd wedi ei chau. Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau/cyfyngiadau dros dro yn dod i rym ar 28 Chwefror 2020 ac y byddant yn weithredol ar benwythnosau yn unig (19:00 o'r gloch ddydd Gwener hyd 06:00 o'r gloch ddydd Llun) hyd 13 Ebrill 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (HAVERFORDWEST
EASTERN BYPASS, PEMBROKESHIRE)
(TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS &
RESTRICTIONS) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road at Haverfordwest, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the A40 described in the Schedule to this Notice. The alternative route is also described therein.

ii. impose a 40 mph or 10 mph speed limit on the length of the A40 described in the Schedule to this Notice when the road is not subject to closure. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

It is expected that the temporary prohibitions/restrictions will come into force on 28 February 2020 and operate on weekends only (19:00 hours Friday to 06:00 hours Monday) until 13 April 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Scotchwell hyd at ei chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Ffordd Aberteifi, Hwlfordd, Sir Benfro.

Y llwybr arall pan fydd y ffordd ar gau

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de yw mynd ar yr A40 tua'r gogledd-orllewin i Gylchfan Llwynhelyg, ar yr A40 Ffordd Abergwaun, Sydney Rees Way a'r A487 Cartlett Road tua'r de ac ar yr A4076 tua'r dwyrain i Gylchfan Scotchwell: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd.

SCHEDULE

The length of the trunk road that extends from its junction with the northern side of Scotchwell Roundabout to its junction with the south-eastern side of Cardigan Road Roundabout, Haverfordwest, Pembrokeshire.

Alternative route during closures

The alternative route for southbound vehicles is via the north-westbound A40 to Withybush Roundabout, southbound A40 Fishguard Road, Sydney Rees Way and A487 Cartlett Road and eastbound A4076 to Scotchwell Roundabout: vice versa for northbound vehicles.